



**PWYLLGOR PENODI LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL
CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol a gafodd ei gynnal Ddydd Mercher, 20 Mawrth 2019 am 1.00pm ym Mloc C, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o Bwyllgor Penodi Llywodraethwyr yr
Awdurdod Addysg Lleol oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd J. Rosser (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M. Forey Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd J. Brencher

Swyddogion oedd yn bresennol:

Miss N. Morgan – Arweinydd Carfan Gwasanaeth Trefniadaeth a Llywodraethu Ysgolion.

1 DATGAN BUDDIANT

Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 4 ar yr Agenda – Ceisiadau ar gyfer Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol – "Rwy'n gwneud cais ar gyfer Ysgol Babanod Tonpentre".

2 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol a gafodd ei gynnal ar 23 Hydref 2018 yn rhai cywir.

3 GWAHARDD AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod yma'n cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, o dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd), sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Mae eglurder wrth reoli busnes yr Awdurdod Lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd data personol yn ymwneud ag ymddygiad a gallu unigolion yn cael ei drafod a'i ystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn

erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

4 CEISIADAU AR GYFER PENODI LLYWODRAETHWYR YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL

Yn ei hadroddiad, rhoddodd Arweinydd Carfan Gwasanaeth Trefniadaeth a Llywodraethu Ysgolion wybod i'r Pwyllgor am y ceisiadau a ddaeth i law i fod yn llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol.

Yn ogystal â'r ceisiadau sydd wedi'u rhestru yn yr adroddiad, cafodd tri chais hwyr eu dosbarthu i'r pwyllgor eu hystyried.

Ar ôl trafod y ceisiadau ger eu bron, **PENDERFYNODD** Aelodau benodi'r unigolion canlynol yn Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol (manylion isod):

<u>YSGOL</u>	<u>LLYWODRAETHWR</u>	<u>DYDDIAD</u> <u>GWEITHREDU</u>
Ysgol Gynradd Cwmlai	Mrs A. Richards	20 Mawrth 2019
Ysgol Gynradd Ffynnon Taf	Mr P. Perez	20 Mawrth 2019
Ysgol Gynradd Penderyn	Mrs M. Amos	20 Mawrth 2019
Ysgol Gynradd Cymuned Pen-pych	Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies	20 Mawrth 2019
Ysgol Gynradd Pen-yr-englyn	Mrs R. Majer	20 Mawrth 2019
Ysgol Babanod Tonpentre	Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen	5 Mai 2019
Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynceilyn	Mrs A. Hawkins	20 Mawrth 2019
Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn	Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries	20 Mawrth 2019
Ysgol Arbennig Park Lane	Y Tad R. Green	5 Mai 2019
Ysgol Tŷ Coch	Mr J. Bridges	5 Mai 2019
Ysgol Gyfun y Pant	Mrs N. Powell	20 Mawrth 2019

(**Nodwch:** Gan ei bod hi wedi datgan buddiant personol sy'n rhagfarnu ynglŷn â'r mater yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees-Owen y cyfarfod wrth i'r pwyllgor benodi llywodraethwyr yn Ysgol Babanod Tonpentre).

(Mrs) J. Rosser

CADEIRYDD Daeth y cyfarfod i ben am 13.18pm

Daeth y cyfarfod i ben am 1.18pm

Y CYNGHORYDD J ROSSER
CADEIRYDD.